**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

15 Mehefin 2023

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr 21 Ebrill ynghylch ein canllawiau wedi'u diweddaru ar ryddhau cleifion o'r ysbyty. Rydym yn falch o ddarparu'r diweddariadau canlynol ar statws a chyhoeddi'r canllawiau a nodir yn eich llythyr.

**Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty**

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu canllawiau wedi'u diweddaru ar ryddhau cleifion i'r ysbyty a fydd yn disodli'r canllawiau sydd ar gael sef *COVID-19: Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty (Cymru)*. Mae'r canllawiau diwygiedig yn cael eu datblygu ar y cyd gan dimau iechyd a gofal cymdeithasol i adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, gan sicrhau ein bod yn cryfhau cysylltiadau â chanllawiau eraill sy'n cael eu paratoi yn y maes hwn o dan raglen waith Chwe Nod Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Bydd y canllawiau diweddaraf yn adlewyrchu'n helaeth y prosesau llwybr cleifion diweddaraf megis Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA), SAFER a Choch i Wyrdd.

Agwedd allweddol arall ar y canllawiau fydd sicrhau bod y diweddariad diweddaraf yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran arferion atal a rheoli heintiau (IP&C). Mae'r amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol wedi newid yn sylweddol yn sgil pandemig Covid ac ers i'r canllawiau presennol gael eu cyhoeddi. Felly, rydym am sicrhau bod y canllawiau bellach yn ystyried yr wybodaeth a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael o ran arferion rhyddhau mewn perthynas â Covid, yn ogystal â feirysau anadlol eraill. Bydd hyn yn golygu bod y canllawiau rhyddhau yn cyd-fynd â chanllawiau IP&C eraill sy'n arddel ymagwedd debyg sy'n ehangu eu ffocws y tu hwnt i ymateb i Covid yn unig.

Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i ymchwilio i'r potensial i ehangu ein canllawiau fel bod gennym gynnwys mwy perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, i'r claf, eu teuluoedd a gofalwyr di-dâl. Er mai'r gynulleidfa graidd ar gyfer y canllawiau rhyddhau wedi'u diweddaru fydd staff a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n debygol y bydd sefyllfaoedd lle gallai fod ar unigolyn, sy'n symud tuag at gael ei ryddhau, angen cymorth gofal cymdeithasol nad oedd yn ei gael o'r blaen, naill ai'n barhaol neu dros dro. Bydd y canllawiau wedi'u diweddaru yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cynnwys gwybodaeth i staff y gellir naill ai ei darparu'n uniongyrchol i'r unigolyn/teulu/ gofalwyr di-dâl, neu sy'n gallu eu cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu eu cefnogi. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu gyda sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Gofal a Thrwsio Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Groes Goch Brydeinig i sicrhau ein bod yn cynnwys gwybodaeth, canllawiau a chymorth defnyddiol perthnasol y gellid eu cyfleu i gefnogi'r claf.

Mae'r gwaith i bennu manylion terfynol y canllawiau hyn yn mynd rhagddo ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r canllawiau dwyieithog ym mis Awst. Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi copi ichi cyn gynted ag y bydd y canllawiau ar gael.

**Asesydd Ymddiriedadwy**

Mae canllawiau i gefnogi'r defnydd o swyddogaeth yr Asesydd Ymddiriedadwy wedi'u datblygu a'u rhannu â'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd ar 21 Rhagfyr 2022. Mae copi o'r canllawiau hyn wedi'i atodi yn unol â'ch cais.

Mae canllawiau'r Asesydd Ymddiriedadwy hefyd yn cael eu cefnogi gyda phecyn cymorth ar-lein a fydd yn cynnwys modiwlau canllawiau gwybodaeth, matrics cymwyseddau a rhai enghreifftiau o achosion i gefnogi'r sector ymhellach mewn rolau neu swyddogaethau Asesydd Ymddiriedadwy sydd wedi'u rhoi ar waith. Disgwylir i ddau fodiwl gwybodaeth cyntaf y pecyn cymorth ar-lein a'r canllawiau gael eu lanlwytho i wefan 6 Nod Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn yr wythnosau nesaf. Arweinir y gweithgarwch hwn gan weithgor bach sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o ofal cymdeithasol ac iechyd, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru, Uned Gyflawni'r GIG a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaid yn cael eu galluogi i ymwreiddio ymestyn y trefniadau presennol i gyflawni rolau asesydd ymddiriedadwy.

**Rhyddhau Cleifion Cyndyn**

Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar ryddhau cleifion cyndyn bellach wedi'u drafftio ac maent wrthi'n cael eu cwblhau'n barod i'w cyhoeddi. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu datblygu o dan arweiniad timau Uned Gyflawni'r GIG mewn cydweithrediad â thimau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynnwys wedi cael ei ystyried gan dimau cyfreithiol i sicrhau bod y cynnwys yn cael sêl bendith briodol ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arferion priodol. Cyn bo hir, byddwn yn dosbarthu'r canllawiau i'r Byrddau Iechyd ac yn eu cyhoeddi er mwyn iddynt fod ar gael yn llawn i dimau a staff gael mynediad atynt yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd copi o'r canllawiau hyn yn cael ei rannu gyda chi cyn gynted ag y bydd y manylion terfynol wedi'u pennu.

Hyderwn fod yr wybodaeth hon wedi ymateb i'ch cais a byddwn yn rhannu'r canllawiau ar ryddhau cleifion cyndyn a'r canllawiau cyffredinol ar ryddhau cleifion o'r ysbyty maes o law.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

# Canllawiau Rôl Aseswr Dibynadwy

## 1. Diben

Un o'r camau blaenoriaeth ar gyfer creu rhagor o allu cymunedol yw cefnogi effeithlonrwydd yn y system. Mae hyn yn cynnwys datblygu canllawiau ar sail 'unwaith i Gymru' er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n achosi oedi ar adegau allweddol yn y llwybr.

Lle mae sefydliadau'n "ymddiried" mewn eraill i gynnal asesiad ar eu rhan ac yn hyderus bod aseswyr yn ddigon medrus, gall rôl yr Aseswr Dibynadwy fod yn ddefnyddiol mewn pob math o sefyllfaoedd gwahanol i leihau dyblygu ymdrechion a darparu mynediad mwy amserol i wasanaethau asesu.

Un rhwystr posibl i'r trosglwyddiad amserol i leoliad gofal mwy priodol neu i gael mynediad at wasanaethau amgen yw'r amser mae'n cymryd i atgyfeirio at dimau eraill am asesiad neu wasanaethau. Gall hyn ychwanegu dyddiau diangen cronnus at arhosiad cleifion mewnol, gan achosi niwed posibl i'r sawl dan sylw a chyfyngu hefyd ar y gallu sydd ar gael i'r rhai sydd angen gwasanaethau gofal acíwt.

Mae'n ymddangos bod cyfle sylweddol ledled Cymru i ystyried rôl yr Aseswr Dibynadwy er mwyn helpu i gefnogi ymateb mwy effeithlon ac amserol gan wasanaethau. Yn dilyn cais am wybodaeth ar draws yr holl Fyrddau Iechyd ym mis Mehefin 2022, gwelwyd mai dim ond dau fwrdd iechyd oedd yn mynd ati i ddatblygu rolau Aseswr Dibynadwy. Hyn er gwaethaf gofyniad gan Lywodraeth Cymru yn y Canllawiau Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Unigolion o Ysbyty yn gysylltiedig â COVID-19 y dylai timau rhyddhau o ysbytai wneud y canlynol:

> *Os nad oes perthnasoedd a threfniadau Aseswr Dibynadwy ar waith, gweithiwch gyda'r tîm rhyddhau ar fyrder i weithredu'r rheolau a'r prosesau hyn*

Mae'r ddogfen hon yn nodi gofynion allweddol rôl aseswr dibynadwy fel y nodwyd mewn canllawiau polisi ac ymarfer cenedlaethol allweddol. Anogir partneriaid rhanbarthol i ddefnyddio hyn i gefnogi ystyriaeth weithredol o werth ychwanegol rôl Aseswr Dibynadwy; os yw rolau Aseswr Dibynadwy eisoes ar waith, gofynnir i bartneriaid ystyried a oes modd ychwanegu gwerth ychwanegol drwy unrhyw un o'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae enghreifftiau o rolau a ddatblygwyd o dan ofynion yr Aseswr Dibynadwy hefyd wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod modd rhannu arferion da a'u cyrchu'n eang.

## 2. Canllawiau Polisi ac Ymarfer Cenedlaethol

Mae'r term 'aseswr dibynadwy' yn cael ei ddefnyddio mewn dwy ddogfen genedlaethol yng Nghymru:

1. Cyfeirir at Aseswr Dibynadwy fel un o'r blociau adeiladu ac un o'r saith egwyddor allweddol yn *Gartref yn Gyntaf.*
2. Mae **Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 Llywodraeth Cymru**[1] hefyd yn cyfeirio at rôl Aseswr Dibynadwy. Disgwylir i'r gofyniad hwn gael ei gadarnhau

[1] Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru) Cyhoeddwyd Ebrill 2020

yn y fersiwn ddiwygiedig o Ofynion Rhyddhau o Ysbyty Llywodraeth Cymru a ddisgwylir.

### a) Gofynion a diffiniad *Gartref yn Gyntaf*

*Mae asesiad dibynadwy yn cynnwys aseswr dibynadwy – rhywun sy'n gweithredu ar ran a chyda chaniatâd nifer o sefydliadau – yn cynnal asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amryw o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol.*

Gall aseswyr dibynadwy ddeillio o unrhyw asiantaeth a dylent fod â mynediad uniongyrchol at wasanaethau ac offer. Mae defnydd o'r model hwn wedi tyfu yng Nghymru, ond i raddau amrywiol mewn rhanbarthau gwahanol. Mae profiad pandemig COVID-19 wedi hwyluso'r defnydd o'r model aseswyr dibynadwy, gyda rhai ardaloedd yn nodi canlyniadau cadarnhaol.

Rhaid i'r model bob amser:

- Gael ei wneud o fewn cymwyseddau proffesiynol.
- Amddiffyn diogelwch cleifion.
- Bod â ffiniau clir.
- Bod wedi'i gynllunio o amgylch cyflawni'r canlyniadau gorau i'r unigolyn, nid fel mecanwaith o lenwi'r bylchau mewn gwasanaethau.

### b) Gofynion Canllawiau Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 Llywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen hon yn mynnu y dylai timau rhyddhau ysbytai wneud y canlynol:

- Gweithredu fel cyswllt allweddol i ddatrys problemau rhwng timau ysbyty a thimau cymunedol.
- Lle nad yw eisoes yn ei le, hyfforddi staff rhyddhau (rhai nad ydynt yn gorfod gwneud asesiadau CIC mwyach o bosibl) i weithredu 'Asesiadau Dibynadwy' ar gyfer cleifion yn yr ysbyty o gartrefi gofal, fel y gallan nhw ddychwelyd i'w cartref gofal yn brydlon, a chefnogi pob cartref gofal gyda'r trefniadau rhyddhau newydd hyn.
- Os nad oes perthnasoedd a threfniadau Aseswr Dibynadwy ar waith, gweithio gyda'r tîm rhyddhau ar fyrder i weithredu'r rheolau a'r prosesau hyn.

*(Mae Gofynion Canllawiau Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 Llywodraeth Cymru yn gyfredol adeg drafftio'r papur hwn. Fodd bynnag, disgwylir i ddiweddariad o Ganllawiau Rhyddhau o Ysbyty Llywodraeth Cymru barhau â'r gofyniad i ddatblygu Rolau Aseswyr Dibynadwy)*

## 3. Rôl yr Aseswr Dibynadwy: Egwyddorion allweddol:

Nid yw'r ddwy set o ganllawiau y cyfeirir atynt uchod yn disgrifio unrhyw un rôl unigol fel yr Aseswr Dibynadwy. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at **swyddogaeth** y mae modd ei chyflawni ar ran eraill lle mae hynny wedi'i nodi a'i gytuno a bod y gofynion uchod o ran cymwyseddau, ffiniau a chanlyniadau yn cael eu bodloni.

Gallai'r rôl fod **o fewn** sefydliad, er enghraifft rhwng adrannau neu grwpiau proffesiynol gwahanol o fewn bwrdd iechyd neu'n gweithredu **ar draws** ffiniau sefydliadol a/neu sectoraidd.

**Nid yw cynlluniau asesiadau dibynadwy yn dileu nac yn disodli cyfrifoldebau statudol.** Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n ymddiried yn eraill i gynnal asesiad ar eu rhan yn ddigon

hyderus bod dealltwriaeth ddigonol o'r risgiau, y costau a'r farchnad leol, a bod aseswyr yn ddigon medrus i wneud y gwaith.

Mae'n hollbwysig bod llwybr clir a chyflym ar gyfer herio, uwchgyfeirio a datrys problemau neu faterion a godir gan unrhyw bartïon sy'n ymwneud â'r cynllun asesiadau dibynadwy. Dylid datrys unrhyw anghydfod cyn gynted â phosibl ac o fewn amserlen y cytunwyd arni'n lleol.

Dylai bod rhagolygon clir o'r nifer a'r mathau o asesiadau sy'n addas ar gyfer swyddogaeth asesiadau dibynadwy, a'r effaith y dylai hyn ei chael ar wella'r llif drwy'r system gyfan.

Gan ystyried y gofynion polisi a chanllawiau cenedlaethol, byddai disgwyl i rôl yr Aseswr Dibynadwy adlewyrchu'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Gwerth ychwanegol a ffocws ar yr unigolyn
- Gwaith cydgysylltiedig / integredig ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn gwella profiad a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.
- Prosesau a llwybrau symlach y cytunwyd arnynt, gan osgoi ailadrodd asesiadau rhwng grwpiau proffesiynol a phartneriaid; canolbwyntio ar ddiogelwch cleifion, gan atal oedi wrth drosglwyddo i dimau / lleoliadau eraill.
- Cael ffiniau clir a gweithredu o fewn cymwyseddau proffesiynol.[2]
- Mae cytundebau pendant rhwng partneriaid, gyda threfniadau llywodraethu (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb partneriaeth) ar waith e.e. er mwyn gwneud ymrwymiadau ariannol ar ran un neu fwy o bartneriaid.
- Wedi'i ategu gan gytundebau llywodraethu gwybodaeth, gyda mynediad at systemau gweithredu cyfrifiadurol partner er mwyn helpu gyda chofnodi a phrosesau eraill.
- Ymreolaeth ac atebolrwydd am gomisiynu / darparu offer a gwasanaethau eraill ar ran y partneriaid i gefnogi cam nesaf llwybr gofal yr unigolyn.
- Yn gallu cefnogi, ar ran partneriaid, gynnydd dros dro i'r gwasanaethau presennol wrth ddisgwyl am adolygiad.
- Nodi a gweithredu mesurau canlyniadau a fyddai'n nodi effeithiolrwydd rôl yr Aseswr Dibynadwy, wedi'u dylunio o gwmpas sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolyn, nid fel dull o lenwi bylchau mewn gwasanaeth.

## 4. Enghreifftiau o Rolau Aseswr Dibynadwy

Dyma enghreifftiau syml o le y gall swyddogaeth Aseswr Dibynadwy wella prydlondeb ac effeithlonrwydd a ddarparwyd yng Nghymru:

- Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a Nyrsys yn cynnal asesiad cymesur cychwynnol i gomisiynu gofal tymor byr yn y cartref. Yn yr enghraifft hon mae staff bwrdd iechyd yn cwblhau asesiad awdurdod lleol ar gyfer cychwyn gofal a chwblhau'r dogfennau gofynnol, a defnyddio system gyfrifiadurol yr awdurdod lleol i gofnodi gwybodaeth yng nghofnodion yr unigolyn. Yna mae'r awdurdod lleol yn derbyn yr asesiad hwn, ac yn comisiynu gwasanaethau i'r unigolyn, ac yn cynnal yr adolygiad ar gyfnod priodol neu y cytunwyd arno, gan ychwanegu at gofnod presennol yr unigolyn.

- Yn achos unigolion newydd, mae'r aseswr dibynadwy yn "creu" ac yn llenwi cofnod unigol newydd y person.

- I unigolion sydd â gwasanaethau eisoes, byddai'r aseswr dibynadwy, yn seiliedig ar ei asesiad cymesur, yn gallu cynyddu dros dro y gwasanaethau a gomisiynwyd yn flaenorol am gyfnod penodedig, wrth aros am adolygiad.

- Yn dilyn yr asesiad cymesur, gallai'r aseswr dibynadwy gomisiynu gofal cam i lawr er mwyn adfer byrdymor naill ai mewn gwelyau a nodwyd mewn cartrefi gofal neu ofal ychwanegol, neu mewn cyfleuster gwelyau cymunedol cam i lawr er mwyn adfer.

[2] Dylai'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan gytuno ar broffil cymhwysedd ar gyfer yr aseswr dibynadwy.

- Defnyddir dull tebyg i ddechrau ymyriadau Tîm Ymateb Cymunedol llawn.
- Mae nyrsys Tîm Ymateb Cymunedol wedi cael hyfforddiant awdurdodau lleol i gyflawni rôl Aseswr Dibynadwy o ran cynnal asesiadau meddyginiaeth. Cafodd hyn ei weithredu i ddechrau oherwydd salwch / absenoldeb staff a oedd yn effeithio ar y gallu i ryddhau'n brydlon o'r ysbyty gleifion a oedd angen asesiad meddyginiaeth.
- Trefniadau mewnol Bwrdd Iechyd sy'n caniatáu i staff technegydd Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Band 4 gynnal ymyriadau lefel isel annibynnol â chleifion y Tîm Ymateb Cymunedol, yn hytrach na gorfod cynnwys yr aelod staff cofrestredig yn y lle cyntaf. Caiff hyn ei oruchwylio gan strwythur cymhwysedd a goruchwylio rheolaidd gan y staff cofrestredig.
- Symleiddio'r broses o gael gafael ar gymorth ailalluogi trwy asesiad gan y lleoliad atgyfeirio.
- Sefydliadau trydydd sector fel Gofal a Thrwsio yn asesu'r angen am offer ac yn archebu offer fel rhan o gytundeb wedi'i gomisiynu gyda chymorth tuag at hyfforddiant cymhwysedd staff.

Mae **manteision** rôl yr Aseswr Dibynadwy yn cynnwys:

- Llai o ddyblygu ymdrechion a thasgau (osgoi costau, cynyddu gwerth).
- Hwyluso'r rhyngwyneb atgyfeirio.
- Lleihau atgyfeiriadau anaddas.
- Darparu un asesiad o anghenion person.
- Seiliedig ar gymhwysedd a meini prawf.

**Atodiad 1: Rhestr wirio gweithredu asesiad dibynadwy:**

*(addaswyd o ddogfen "Developing trusted assessment schemes: essential elements" NHS England, LGA ac ADASS, Gorffennaf 2017)*

**Ystyried cryfder ac aeddfedrwydd perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng comisiynwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol lleol, a chytuno ar unrhyw gamau i'w cymryd i gefnogi gwell ymddiriedaeth a pherthnasoedd fel rhan o gynlluniau i ddatblygu a gweithredu gwasanaeth asesiadau dibynadwy.**

- Mae rhanbechnogaeth o risg yn gofyn am berthynas gadarnhaol, llawn ymddiriedaeth ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol a rhwng sefydliadau comisiynu a darparu.

- Mewn sawl ardal bydd fforwm darparwyr o ryw fath, gan gynnwys fforymau gwerth cymdeithasol. Mae hwn yn debygol o fod yn lle ardderchog i ddechrau trafodaethau a chynnwys darparwyr y sector annibynnol wrth ganfod ateb hyfyw o'r cychwyn cyntaf. Os nad oes fforwm darparwyr lleol, efallai yr hoffai systemau lleol chwilio am gyfranwyr parod posibl ymhlith darparwyr cartrefi gofal a gofal yn y cartref drwy gomisiynwyr lleol, cymdeithasau cenedlaethol neu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

**Dod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd i ddechrau'r broses gyd-ddylunio:**

- Er mwyn i'r asesiad a'r aseswr fod yn ddibynadwy, mae angen i'r holl randdeiliaid fod yn rhan o'r broses o ddylunio a datblygu'r rôl a'r broses/gweithdrefnau y cytunir arnynt.

**Pennu set o amcanion cyffredin/a rennir ar gyfer y gwasanaeth asesiad dibynadwy:**

 Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'r boblogaeth darged, a dylai'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan ymrwymo i amcanion y cynllun, gyda chyfrifoldeb ar y cyd am eu cyflawni.

**Sicrhau bod proses o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer cynnwys cleifion a gofalwyr:**

 Yn y bôn mae asesiad dibynadwy yn ffordd o gefnogi gwell profiad a chanlyniadau i gleifion a gofalwyr. Dylai cleifion a gofalwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio'r gwasanaeth ac adolygiad parhaus.

**Cytuno ar ba fathau o asesiad fydd yn rhan o'r gwasanaeth:**

 Mae'r term 'asesiad' yn cael ei ddefnyddio am bob math o asesiadau, felly er mwyn osgoi dryswch a help gyda chydymffurfio, dylai pob system leol nodi'n union pa asesiadau sy'n rhan o gynllun lleol - gall enghreifftiau gynnwys:

- ✓ Trosglwyddo'n ôl i becyn cymorth presennol, gan gynnwys gofal yn y cartref neu mewn cartref gofal.
- ✓ Trosglwyddo i becyn cymorth interim, e.e. ailalluogi neu D2RA.
- ✓ Pennu lleoliad cam i lawr er mwyn adfer.
- ✓ Asesiadau ar gyfer cymorth a gofal (cymdeithasol) [gan gynnwys cymorth i ofalwyr di-dâl allu parhau â'u rôl gofalu].
- ✓ Asesiadau ar gyfer offer, cymhorthion neu addasiadau e.e. model aseswr dibynadwy Iechyd Galwedigaethol mewn perthynas ag addasiadau mewn cartrefi.

**Cyd-ddylunio proses symlach o'r dechrau i'r diwedd:**

 adolygu'r broses o'r dechrau i'r diwedd er mwyn nodi unrhyw oedi a'u hachosion. Craffu ar yr holl waith papur a chael gwared ar ddyblygu. Os oes modd, cytuno ar broses asesu generig ar gyfer sawl gwasanaeth a diben.

 Dylai systemau hefyd ystyried taith gyfan y claf yn hytrach nag un pwynt asesu penodol yn unig.

**Cytuno pwy all fod yn aseswr dibynadwy:**

 Ystyried a yw'n hanfodol i'r gwasanaeth bod gweithiwr cymdeithasol, clinigwr neu therapydd yn cynnal yr asesiad. Mae'n debygol na fydd hyn yn wir yn y mwyafrif o achosion, a bod modd ystyried grŵp ehangach o staff ar gyfer y rôl. Bydd fframwaith cymhwysedd clir yn hanfodol. Er enghraifft, gall asesiadau ar gyfer offer, cymhorthion ac addasiadau gael eu cynnal gan ddarparwyr cymorth tai / tai a /neu wasanaeth trydydd sector fel Gofal a Thrwsio, y Groes Goch Brydeinig.

**Cytuno ar gymwyseddau a rhoi gofynion hyfforddiant ar waith:**

 Bydd angen naill ai fframwaith cymhwysedd cytûn y gellir mesur aseswyr posibl yn ei erbyn a/neu raglen hyfforddi i sicrhau bod aseswyr yn cyrraedd y cymhwysedd gofynnol, gan gynnwys dealltwriaeth o ddarpariaeth cartrefi gofal lleol a darpariaeth gwasanaethau gofal yn y cartref. Mae annog aseswyr i weithio ochr yn ochr â'r darparwyr cartrefi gofal a gofal yn y cartref sy'n bartïon i'r cynllun, ac ymgyfarwyddo â nhw, yn debygol o helpu i

ddatblygu'r ymddiriedaeth ofynnol. **Mae angen i systemau sicrhau eu hunain bod unrhyw un sy'n gweithio mewn rôl aseswr dibynadwy yn gymwys yn alwedigaethol.**

- Ar ôl cytuno ar ofynion o ran cymwyseddau a gwybodaeth ar gyfer aseswr dibynadwy, gellir gwirio'r rhain yn erbyn proffiliau rôl presennol i nodi bylchau. Bydd hyn yn llywio unrhyw gynllun hyfforddiant.

**Cynnwys fframweithiau clir a dolen adborth/llinell frys yn y model:**

- Bydd gwasanaeth da yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn helpu pob unigolyn i gyflawni'r canlyniadau y mae'n eu dymuno. Gallai hynny olygu gweithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol, gydag elfen o fentro weithiau - er enghraifft, ceisio cael rhywun adref o'r ysbyty hyd yn oed os yw'n eiddil iawn. Mae angen i'r aseswr dibynadwy gael ei gefnogi gan fframwaith clir ar gyfer cymryd risgiau, a gytunwyd gan yr holl bartneriaid sy'n rhan o'r gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn trafodaeth â'r claf a'i deulu, gyda chynlluniau wrth gefn clir ar gyfer unrhyw risgiau a nodwyd.
- Os yw'r gwasanaeth y mae'r aseswr dibynadwy yn gweithio ar ei ran yn credu bod asesiad yn anghywir, rhaid cael llwybr cyflym a hwylus i drafod a datrys y pryderon. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, linell frys i gydweithiwr neu reolwr arall mwy profiadol gyda chytundeb i ddod o hyd i gymorth arall neu ychwanegol pan fo angen.
- Sefydlu proses datrys problem/anghydfod agored/dryloyw, a gytunwyd gan bob parti sy'n rhan o'r cynllun.

**Cynnwys gwerthusiad yn nechrau'r broses:**

Cytuno ar fetrigau i'w defnyddio i fonitro sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu a'i effaith:

Er enghraifft, pa ganran o'r rhai sy'n mynd adref fyddai disgwyl i wasanaeth asesiadau dibynadwy eu hasesu? Pa gyfran o'r rhain na ddylai gael unrhyw gefnogaeth barhaus? Pryd fydd hyn yn digwydd ym mhob rhan o'r ysbyty neu'r gwasanaeth? Pa ganran o'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu eu derbyn i'r ysbyty fydd yn cael asesiad dibynadwy?

- Pa effaith ddylai hyn ei chael ar oedi wrth drosglwyddo gofal a hyd arosiadau? Ydy adborth cleifion yn gadarnhaol? Ydy adborth gweithwyr proffesiynol yn gadarnhaol?

**Cytuno lle mae modd rhoi'r gwasanaeth ar waith yn gyflym:**

- Gall gymryd amser i feithrin ymddiriedaeth rhwng sefydliadau ac unigolion, felly dylid dechrau gan bwyll gydag un ward neu wasanaeth a'i gyflwyno'n raddol wedyn, ond gydag amserlen glir ar gyfer cyflwyno i wasanaethau neu leoliadau eraill.